



CRONFA BENSIWN
POWYS
PENSION FUND

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Gorffennaf 2026

Hanes y Polisi

Dyddiad y Polisi	Crynodeb o'r newid	Cyswllt	Fersiwn/ Dyddiad Gweithredu	Dyddiad Adolygu
2019	Fersiwn gychwynnol wedi'i gyhoeddi	Cronfa Bensiwn	1	2021
2021	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	2	2024
2024	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	3	2027
2025	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	4	2027
2026	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	5	2028

Cyflwyniad a Phwrrpas

Mae Cronfa Bensiwn Powys ('Cronfa') yn fuddsoddwr hirdymor. Nod y Gronfa yw darparu enillion ariannol cynaliadwy i gwrdd â buddion pensiwn ein haelodau yn y dyfodol, trwy ddyrannu ar draws gwahanol fathau o fuddsoddiad tra'n cadw lefel briodol o arallgyfeirio a risg.

Fel y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi ('y Pwyllgor'), mae gennym ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd gorau aelodau'r Gronfa. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cynnwys rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ('ESG') yn effeithiol a allai fod yn ariannol bwysig i'r Gronfa nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa yn diffinio **Buddsoddi Cyfrifol ('RI')** fel integreiddio materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu i'w phrosesau buddsoddi a'i harferion perchnogaeth yn y gred y gall hyn effeithio'n gadarnhaol ar berfformiad ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylai'r Gronfa reoli risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a allai godi ar draws pob cyfnod amser (tymor byr, canolig a hir).

Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa drefniant cyfuno gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru ('WPP') ac yn y dyfodol bydd gyda Chwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (y ddau gyda'i gilydd yn 'Partneriaeth Pensiwn Cymru' yn y papur hwn ac yn ymgysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau bod ei amcanion a'i ymagwedd tuag at Fuddsoddi Cyfrifol yn cael eu mynegi gyda'r trefniadau cyfuno sydd ar waith gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Gronfa hefyd yn ymgysylltu'n weithredol â'i rheolwyr buddsoddi penodedig gyda'r nod o alinio dull Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa â dull y rheolwyr (fel y disgrifir yn fanwl yn y Polisi hwn).

Mae'r Gronfa yn ceisio integreiddio Buddsoddi Cyfrifol ar draws ei phroses gwneud penderfyniadau buddsoddi ar gyfer y portffolio cyfan, gan fabwysiadu dull hyblyg o reoli ei strategaeth fuddsoddi. ystyried y manylion a'r gwahaniaethau priodol sy'n berthnasol i wahanol fathau o asedau.

Mae'r Gronfa hefyd yn ceisio deall a rheoli risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac enw da y gall y Gronfa fod yn agored iddynt. Mae'r polisi hwn yn nodi ymagwedd y Gronfa at fuddsoddi Cyfrifol ac yn manylu ar y camau y mae'r Gronfa yn eu cymryd ar ran aelodau'r Gronfa a rhanddeiliaid eraill i amddiffyn y Gronfa rhag risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac enw da. Rydym yn disgwyl y bydd arfer gorau'r diwydiant, ansawdd ac argaeledd data Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn parhau i esblygu.

Credoau ac Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Pwyllgor wedi trafod eu credoau mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol ac mae'r rhain wedi bod yn sail i'r polisi hwn. Gosodwyd y credoau hyn i ddechrau yn 2019 ac fe'u hadolygwyd yn 2024. Gwnaed yr adolygiad i adlewyrchu aelodaeth newidiol y Pwyllgor, ochr yn ochr â'r asedau y buddsoddwyd ynddynt, sut mae hyn yn cysylltu ag uchelgeisiau a nodau eraill a'r dirwedd Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu/Buddsoddi Cyfrifol ehangach sy'n esblygu. Mae **Credoau ac Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol** y Gronfa wedi'u nodi isod:

- Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr tymor hir, gyda rhwymedigaethau yn ymestyn am ddegawdau i ddod, ac mae'n ceisio darparu enillion cynaliadwy hirdymor. Mae cyfle i gynhyrchu enillion disgwylidig gwell trwy wneud penderfyniadau gyda rhagolygon tymor hir.
- Mae'r Pwyllgor yn ystyried buddsoddiadau a wneir mewn ardaloedd o wrthdaro yn ofalus a, lle bo hynny'n briodol, yn asesu pa gamau gweithredu a allai fod ar gael i'r Pwyllgor o dan strwythur buddsoddi'r Gronfa.
- Mae'r Gronfa yn cydnabod bod ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn berthnasol i osod amcanion buddsoddi, monitro parhaus, ac asesu risgiau yn y dyfodol. Mae nodi a rheoli risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a allai fod yn ariannol bwysig yn gyson â'n dyletswydd ymddiriedol i'n haelodau.
- Yn yr un modd, mae'r Gronfa yn ceisio integreiddio materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu trwy gydol proses gwneud penderfyniadau buddsoddi'r Gronfa, o osod strategaeth fuddsoddi i fonitro rheolwyr buddsoddi'r Gronfa. Yn unol â hynny, ceisir mewnbwn gan ymgynghorydd buddsoddi penodedig y Gronfa ar y materion hyn.
- Mae buddsoddi effaith, integreiddio a sgrinio Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cyd-fynd â datganiad cenhadaeth y Gronfa ac yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi'r Gronfa. Er enghraifft, mae ystyriaethau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd wedi bod yn destun trafodaethau lluosog a gynhaliwyd gan y Gronfa, gan gynnwys y dull a gymerwyd o gadw neu ddadfuddsoddi oddi wrth amlygiad y Gronfa i danwydd ffosil. Bydd cyfleoedd buddsoddi ychwanegol sy'n cyd-fynd ag effaith, integreiddio neu sgrinio Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cael eu harchwilio ochr yn ochr ag amcanion buddsoddi'r Gronfa a'r graddau y maent yn darparu llai o risg a gwell enillion.
- Mae stiwardiaeth effeithiol o asedau yn bwysig a dylai barhau i fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r Gronfa yn monitro ei buddsoddiadau. Mae'r Gronfa yn cydnabod pwysigrwydd perchnogaeth gyfrifol ac mae ganddi ddyletswydd i arfer ei chyfrifoldebau stiwardiaeth a pherchnogaeth weithredol (megis defnyddio hawliau pleidleisio drwy ddirprwy ac annog ei rheolwyr buddsoddi penodedig i ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau buddsoddi) yn effeithiol trwy ddefnyddio ei dylanwad fel buddsoddwr hirdymor i annog ymddygiad cadarnhaol.
- Mae'r Gronfa yn cydnabod bod ein haelodau yn debygol o fod â diddordeb yn y modd y mae amcanion Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn cael eu hymgorffori trwy ei strategaeth fuddsoddi a'i nod yw bod yn dryloyw ac atebol trwy ddatgelu ei pholisi Buddsoddi Cyfrifol yn gyhoeddus.

Dull Gweithredu Buddsoddi Cyfrifol

Rôl yr ymgynghorydd buddsoddi

Wrth osod a gweithredu ei strategaeth fuddsoddi, mae'r Gronfa yn cymryd cyngor gan ei hymgyngorydd buddsoddi penodedig. Mae'r cyngor hwn yn cael ei roi yn ei gyd-destun gan y ffaith bod asedau'r Gronfa yn cael eu rheoli gan reolwyr buddsoddi trydydd parti, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'u bod yn gyfrifol am y penderfyniadau buddsoddi o ddydd i ddydd, gan gynnwys ymgymryd â gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu ar ran y Gronfa.

- Mae'r Gronfa yn disgwyl i'w hymgyngorydd buddsoddi ystyried ac integreiddio materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn weithredol wrth ddarparu cyngor buddsoddi;
- Yn ogystal, mae'r Gronfa yn disgwyl i'w hymgyngorydd buddsoddi ddod â materion newydd a phwysig sy'n gysylltiedig ag Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a Buddsoddi Cyfrifol i sylw'r Pwyllgor fel y bo'n briodol;
- Mae'r Gronfa yn ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu fel y maent yn ymwneud â'i dyraniad asedau strategol, gan gynnwys cymryd cyngor ar effaith materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar wahanol fathau o asedau; ac
- Mae'r Gronfa yn ystyried integreiddio Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a pherchnogaeth weithredol wrth ddewis a monitro rheolwyr buddsoddi.

Rôl y rheolwyr buddsoddi

Wrth fonitro rheolwyr buddsoddi allanol, mae'r Gronfa yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i'w rheolwyr buddsoddi ddarparu datganiad sy'n nodi i ba raddau y maent yn ystyried ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn eu prosesau buddsoddi, ynghyd â'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y buddsoddiad;
- Gofyn am fewnbwn gan ei hymgyngorydd buddsoddi penodedig ynghylch materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a allai gael effaith sylweddol ar werth asedau'r Gronfa a'r cronfeydd y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt; ac yn
- Monitro gweithgareddau perchnogaeth weithredol ei reolwyr buddsoddi trwy ofy ameu hadroddiadau ac enghreifftiau o weithgarwch ymgysylltu a gymerwyd.

Risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Amlygiad i sectorau carbon dwys

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sawl trafodaeth ynglŷn â dull y Gronfa o ddadfuddsoddi o danwydd ffosil. Mae hyn hefyd wedi cynnwys derbyn manylion am y dull a gymerwyd gan Awdurdodau Cyfansoddol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill a threfniadau cyfuno, ynghyd â nodi'r safbwynt a gymerwyd gan Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol ('LAPFF') y mae'r Gronfa yn aelod ohono.

Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi cynnal adolygiad o broffil allyriadau carbon ei phortffolio ac agweddau ei rheolwyr buddsoddi at reoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i hwyluso ymgysylltu â rheolwyr yn ôl yr angen.

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod amlygiad i fuddsoddiadau tanwydd ffosil yn un elfen o amlygiad cyffredinol i risgiau newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod pwysigrwydd ystyried risg newid yn yr hinsawdd yn holistaidd.

Aliniad â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol

Trwy gydol y broses hon, mae'r Pwyllgor wedi ceisio cymryd ymagwedd at fuddsoddi cyfrifol sy'n briodol yng nghyd-destun amcanion buddsoddi hirdymor y Gronfa ac wedi gweithredu opsiynau buddsoddi o fewn fframwaith cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ei fod yn cefnogi safiad Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol ynghylch ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi ar faterion sy'n ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y gall y Gronfa a'i haelodau fod yn agored iddynt, gan gynnwys y trawsnewid i economi carbon isel.

Ym mis Mawrth 2026, diweddardd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei pholisi buddsoddi cyfrifol, gan ddiweddaru ei hymagwedd at stiwardiaeth, gwaharddiadau a dadfuddsoddi. Yn benodol, nododd y diweddariadau i'r polisi fod yna feysydd buddsoddi a all fod yn anghyson â rhagolygon buddsoddi hirdymor Partneriaeth Pensiwn Cymru a gallent greu risg. Ar ôl adolygu diweddariad Mawrth 2026, mae'r Pwyllgor yn cyd-fynd â safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru ac yn ei chefnogi i adolygu ei fframwaith buddsoddi, gan gynnwys eithriadau a allai fod yn berthnasol yn y dyfodol ac i gymryd ymagwedd aml-haenog at stiwardiaeth, ac mae'n cytuno i ymgorffori'r meysydd na fydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn buddsoddi ynddynt fel y nodir yn adran 7.2, i mewn i bolisi'r Gronfa.

Stiwardiaeth – Pleidleisio ac Ymgysylltu

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod ganddi, ochr yn ochr â hawliau pleidleisio, gyfrifoldebau fel cyfranddaliwr o ran stiwardiaeth effeithiol asedau ar ran ei haelodau a'i buddiolwyr. Mae stiwardiaeth briodol yn gonglfaen llywodraethu da: yn unol â hynny, bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn adolygu aliniad y Gronfa ag egwyddorion Cod1 Stiwardiaeth y DU.

O ganlyniad, mae'r Gronfa yn cydnabod pwysigrwydd perchnogaeth weithredol, h.y. y defnydd rhagweithiol o weithgaredd ymgysylltu a stiwardiaeth asedau. Ar ben hynny, mae'r Gronfa yn cydnabod bod gan weithgareddau ymgysylltu a gynhelir ochr yn ochr â buddsoddwyr eraill – megis Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol a Phartneriaeth Pensiwn Cymru fel endid cyfunol – botensial i gael effaith sylweddol ar ymddygiadau corfforaethol ac ysgogi gwelliannau mewn camau gweithredu a datgeliadau.

Tra bod y Gronfa yn dirprwyo pleidleisio ac ymgysylltu i'w darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd y Pwyllgor yn gofyn am sylwadau gan ei ymgynghorydd buddsoddi, lle bo'n berthnasol ac ar gael, ynghylch sut mae rheolwyr y Gronfa yn arfer hawliau pleidleisio ar ei ran.

Menter a Chydweithrediad Diwydiant

Mae'r Gronfa yn cydnabod bod cydweithio â buddsoddwyr eraill yn offeryn pwerus i gadw i fyny â datblygiadau yn y maes hwn ac yn rhoi'r potensial i weithredu ar y cyd i ddylanwadu

ar ymddygiad cwmnïau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill y diwydiant. Mae'r Gronfa yn ceisio gweithio gyda a chefnogi mentrau cyrff perthnasol.

- Mae'r Gronfa yn cymryd ei rôl yn Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) o ddifrif, gan gydnabod bod hyn yn cyfrannu at arfer ei dylanwad yn effeithiol trwy gydweithio;
- Mae aelodau'r Pwyllgor wedi ymuno â Rhwydwaith Buddsoddi Cyfrifol Aon, fforwm i fuddsoddwyr cronfeydd pensiwn ryngweithio a thrafod amcanion a gweithredu; ac
- Mae'r Gronfa yn adolygu ei chyfranogiad mewn mentrau cydweithredol megis Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol yn rheolaidd, gan gynnwys manteision cyfranogiad.

Datgelu ac Adrodd

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod tryloywder a datgelu yn agwedd bwysig ar fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Bydd y Pwyllgor felly yn darparu cyfathrebu hygyrch ac aml i'r aelodau trwy gylchlythyrau blynyddol.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys argaeledd gwefan sydd ar gael i'r cyhoedd lle bydd polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn cael ei ddarparu ochr yn ochr ag unrhyw adroddiadau eraill ar gynnydd a datblygiadau'r Gronfa yn y ffordd y mae'n mynd i'r afael â materion Buddsoddi Cyfrofol, megis eu datganiad strategaeth fuddsoddi.